**WHC/2023/06**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi: 31 Mawrth 2023**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**<u>STATWS</u>: GWEITHREDU**

**<u>CATEGORI</u>: ANSAWDD A DIOGELWCH**

**Teitl: Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu** 1 Ebrill 2024

**Date of Expiry / Review** N/A

**I'w weithredu gan:** Cyfarwyddwyr Meddygol, Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Cyfarwyddwyr Therapïau a Gwyddorau Iechyd, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Iechyd Strategol, WHSSC, Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (mewn perthynas â swyddogaethau Cymru), meddygfeydd, fferyllfeydd cymunedol, optometryddion a phractisau deintyddol.

**Gweithredu erbyn:** 1 Ebrill 2023

**Anfonir gan:** Yr Athro Chris Jones, Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol

**Enw(au) cyswllt yn AIGC Llywodraeth Cymru:**
Teresa Bridge, y Gyfarwyddiaeth Ansawdd a Diogelwch, Ansawdd a Nyrsio. Ffôn: 03000 256797
E-bost: HSCQualityandEngagement@llyw.cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Canllawiau'r Ddyletswydd Ansawdd, Canllawiau'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac atodiadau.

Annwyl Gydweithwyr

Rwy'n falch iawn o roi gwybod ichi y bydd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cychwyn ar 1 Ebrill. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhai hynod heriol i'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, felly mae'r ffaith fod y gwaith ar y Ddeddf bwysig hon wedi'i wireddu yn gryn gamp gan bawb a fu ynghlwm wrth y gwaith, yn enwedig rhanddeiliaid.

Bydd y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn y Ddeddf yn cefnogi dull gweithredu parhaus ar draws y system i wella ansawdd o fewn y GIG ac i wreiddio ymhellach ddiwylliant o fod yn agored a thryloyw. Bydd sefydlu Corff Llais y Dinesydd, a fydd yn cael ei alw'n *Llais – eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol*, yn grymuso pobl Cymru i gael mwy o ddylanwad ar eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn berthnasol i holl gyrff y GIG ac i Weinidogion Cymru, o ran swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae iddi nod deublyg, sef sicrhau bod penderfyniadau ar sail ansawdd yn gwella gwasanaethau iechyd, a bod pwyslais yn cael ei gynnal ar wella canlyniadau i bobl Cymru. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd, sy'n disodli Safonau Iechyd a Gofal 2015. Rwy'n ymwybodol bod sefydliadau wedi dechrau eu paratoadau mewnol ar gyfer y ddyletswydd hon a fydd, gobeithio, yn golygu bod data sylweddol ynghylch ansawdd canlyniadau yn cael eu rhannu a'r cyhoedd a bod gwasanaethau'n cael eu gwella'n barhaus.


Mae Ddyletswydd Gonestrwydd yn adeiladu ar waith i wreiddio diwylliant agored a thryloyw ar draws GIG Cymru sy'n sbarduno dysgu a gwelliannau i wasanaethau. Mae'n gosod dyletswydd sefydliadol ar holl gyrff y GIG i gefnogi pobl a'u teuluoedd yn rhagweithiol pan all pethau fynd o chwith gyda'u gofal. Hefyd, yn bwysig, mae'n sicrhau yr ymchwilir i ddigwyddiadau drwy'r broses Gweithio i Wella a bod gwersi'n cael eu rhannu i helpu i atal yr un peth rhag digwydd eto.

Mae cyrff y GIG wedi dechrau gweithredu'r ddwy ddyletswydd a dylent barhau i wneud hynny, gan ddilyn y canllawiau atodedig ar gyfer Ansawdd a Gonestrwydd a'r Rheoliadau Gonestrwydd a ddarperir mewn dolenni ar ddiwedd y llythyr hwn. Darperir dolenni i ddeunyddiau ategol ar gyfer y ddwy ddyletswydd hefyd.

Bydd Corff Llais y Dinesydd, neu Llais, yn gorff cenedlaethol annibynnol i gynrychioli pobl Cymru yn y gwaith o lunio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n gam pwysig tuag at integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd Llais yn cynrychioli barn a phrofiadau pobl ar sail eu defnydd o wasanaethau sy'n rhan annatod o ofal pobl yn aml Bydd y corff yn gweithio gyda chyrff y GIG, awdurdodau lleol, a sefydliadau gwirfoddol, law yn llaw â phobl Cymru, i sicrhau bod pobl yn cael eu clywed a'u cynrychioli'n barhaus ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Amgaeir dolen at Reoliadau Corff Llais y Dinesydd er gwybodaeth.

Gyda'i gilydd bydd y mesurau hyn yn y Ddeddf yn ein helpu i fwrw ymlaen â'r uchelgeisiau o ran integreiddio a chynaliadwyedd a nodir yn *Cymru Iachach*; gan roi ansawdd a diogelwch uwchlaw dim byd arall, ysgogi gwelliannau mewn iechyd a gofal cymdeithasol, grymuso pobl i gyfrannu at y gwelliannau hynny ac yn y pen draw, arwain at y canlyniadau gwell sydd bwysicaf i bobl Cymru.

Yn gywir/ Yours sincerely



Yr Athro/ Professor Chris Jones
Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol, GIG Cymru
a Dirprwy Brif Swyddog Meddygol

National Clinical Director, NHS Wales and Deputy Chief Medical Officer

**Dolenni at y Rheoliadau a'r deunyddiau ategol**

**Dyletswydd Ansawdd**

Deunyddiau ategol

Fideo Cymraeg
https://youtu.be/TG0VPKTm-EQ

Fideo Saesneg
https://youtu.be/yw8Xhl_IB6w

Mae rhagor o adnoddau yn cael eu datblygu drwy'r Grŵp Gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd.

Bydd gwybodaeth am y ddyletswydd hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn Y ddyletswydd ansawdd yng ngofal iechyd | LLYW.CYMRU

**Dyletswydd Gonestrwydd**

Rheoliadau
Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 (senedd.cymru)

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023 (senedd.cymru)

Memorandwm Esboniadol
https://senedd.cymru/media/1hbfyqia/sub-ld15719-em-w.pdf

Deunyddiau ategol
Mae'r rhaglen hyfforddiant staff ar-lein ar gael ym mhorthol Learning@Wales yn **https://learning.nhs.wales/?lang=cy** a thrwy **Gofnod Electronig Staff y GIG**
Mae taflenni a fideos ymwybyddiaeth i'r cyhoedd a staff ar gael i dimau'r GIG ar Fewnrwyd Cydwasanaethau GIG Cymru (mae angen mynediad i rwydwaith y GIG) neu drwy'r tîm perthnasol yn eich Bwrdd Iechyd.

Mae'r daflen ymwybyddiaeth i'r cyhoedd hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn Dyletswydd Gonestrwydd y GIG | LLYW.CYMRU

**Corff Llais y Dinesydd**

Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol, Atodol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023 (senedd.cymru)

Memorandwm esboniadol
sub-ld15727-em-w.pdf (senedd.cymru)